# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Iau, 15 Hydref 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol);

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. Phillips, Rheolwr Rhaglenni Ewropeaidd;
L. Alvarez, Swyddog Biwro;
J. Hancock, Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol Blaenllaw;
C. Owen, Swyddog Biwro;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod:** 10.00 yb - 10.35 yb

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 30AIN MEDI 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2020, gan ei fod yn gywir.**

**3. GRANT TLODI BWYD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn nodi cynigion i ddosbarthu £38,570 o gyllid cyfalaf gan CLlLC i helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd drwy grant trydydd parti a weinyddir gan yr Awdurdod. Byddai'r grant trydydd parti yn agored i unrhyw sefydliad â chyfansoddiad sy'n ceisio helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn Sir Gaerfyrddin. Cynigiwyd y byddai grantiau Cyfalaf rhwng £1,000 ac uchafswm o £5,000 ar gael.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwaith o gyflawni'r Gronfa Tlodi Bwyd drwy Grant Trydydd Parti.**

**4. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: CRONFA BUDD CYMUNEDOL MYNYDD Y BETWS, A'R CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Budd Cymunedol Mynydd y Betws a Chronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Cronfa Budd Cymunedol Mynydd y Betws** | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Eglwys Feiblaidd Rhydaman | £5,040.00 |
| Clwb Pêl-droed Rhydaman | £891.81 |
| Canolfan y Mynydd Du | £10,760.00 |
| Heddlu Dyfed-Powys | £2,500.00 |
| Clwb Golff Aelodau Parc y Garnant | £15,000.00 |
| Clwb Golff Glynhir | £10,000.00 |

| | |
|---|---|
| Sefydliad Jac Lewis | £15,000.00 |
| Cyngor Cymuned Llanedi | £15,000.00 |
| Cyngor Cymuned Llanedi | £12,000.00 |
| Institiwt a Neuadd Goffa Pen-y-groes | £8,044.00 |
| Cyngor Tref Cwmaman | £10,997.15 |
| Cyngor Tref Rhydaman | £9,636.00 |

| **Cronfa'r Degwm** | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Addolai Cymru | £3,000.00 |
| Gofal Canser Tenovus | £3,000.00 |
| Eglwys Feiblaidd Rhydaman | £3,000.00 |
| Sefydliad Jac Lewis | £3,000.00 |
| Clwb Golff Glynhir | £1,300.00 |

## 5. Y GRONFA CYLLID A DARGEDIR

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar y diwygiadau arfaethedig i'r meini prawf presennol sy'n ymwneud â Chronfa Cyllid a Dargedir yr Awdurdod, er mwyn diwallu anghenion presennol y trydydd sector yng ngoleuni'r sefyllfa sydd ohoni. Ceisiwyd cymeradwyaeth hefyd ar gyfer dyrannu cyllid i gynllun peilot sy'n cael ei reoli gan Heddlu Dyfed-Powys i brofi model gwahanol i gefnogi gweithgareddau cymunedol.

**PENDERFYNWYD**

**5.1 cymeradwyo'r diwygiadau i'r meini prawf presennol y manylir arnynt yn yr adroddiad sy'n ymwneud â Chronfa Cyllid a Dargedir yr Awdurdod i ddiwallu anghenion presennol y trydydd sector yng ngoleuni'r sefyllfa sydd ohoni;**

**5.2 cymeradwyo dyraniad o £7,500.00 o gyllid i gynllun peilot sy'n cael ei reoli gan Heddlu Dyfed-Powys.**

____________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**